Pori Drwy Stori

# Ble mae'r ddafad?

## Cyfarwyddiadau

Mae llawer o ffyrdd difyr i chi ddefnyddio'r cardiau i siarad â'ch plentyn am rifau, siapiau, meintiau a lliwiau. Gyda'ch gilydd gallwch chwarae'r gemau yn y tŷ neu yn yr awyr agored.

Os ydych chi'n mwynhau'r gweithgareddau hyn mae rhagor ar gael ar ein gwefan

## 10 gêm llawn hwyl i'w chwarae gyda'ch gilydd

Chwiliwch am bob dafad sydd mewn triongl, sgwâr, petryal, cylch a diemwnt.

Rhowch y defaid mewn trefn, o'r lleiaf i'r mwyaf.
Rhowch y defaid mewn trefn, o'r mwyaf i'r lleiaf.

Allwch chi drefnu'r cardiau o 1 – 10?
Allwch chi drefnu'r cardiau o 1 – 20? (e.e. 10 + 4 = 14)

Allwch chi ddod o hyd i bob cerdyn gydag eilrif?
Allwch chi ddod o hyd i bob cerdyn gydag odrif?

Oes yna ffordd arall o drefnu'r cardiau? Meddyliwch am liwiau, neu sawl ochr sydd gan y gwahanol siapiau.

Dewiswch ddau gerdyn (neu mwy). Beth yw'r rhif ar ôl adio'r ddau rhif?
Dewiswch rif, a chwiliwch am gardiau sy'n adio i roi'r cyfanswm hwnnw.


Chwaraewch gêm o snap gydag ochr lliw, siap a maint y cardiau.

1. Rhowch un pecyn o gardiau (1 – 10) ar y bwrdd gyda'r defaid yn wynebu i lawr, eu troi o gwmpas a chymysgu eu trefn.
2. Gofynnwch i'ch plentyn droi dau gerdyn drosodd ar yr un pryd.
3. Os yw'r defaid ar y cardiau yr un maint, gall eich plentyn eu cymryd oddi ar y bwrdd a'u cadw. Os yw'r maint yn wahanol, rhaid eu rhoi yn ôl ar y bwrdd.
4. Bydd angen i'ch plentyn barhau i godi dau gerdyn ar y tro nes y bydd wedi dod o hyd i'r parau i gyd, a bod dim cardiau ar ôl ar y bwrdd.

Mae hyn yn datblygu cof y plentyn, wrth iddo/iddi geisio cofio ble ar y bwrdd mae'r defaid o wahanol faint.

Dewiswch unrhyw ddau gerdyn. Tynnwch y rhif lleiaf allan o'r rhif mwyaf.
Beth yw'r ateb?

Beth am gael hwyl yn dyfeisio gemau newydd!



BookTrust Cymru
Ysgogi plant i ddarllen
Getting children reading

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government